HUMPHREYS, BENJAMIN (1856 - 1934), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: Benjamin Humphreys
Dyddiad geni: 1856
Dyddiad marw: 1934
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: William Joseph Rhys

Ganwyd 18 Chwefror 1856, yn Nhalybont, Sir Aberteifi. Fe'i magwyd yn naws diwygiad 1859. Dechreuodd bregethu 27 Hydref 1872. Aeth at R. M. Humphreys ei frawd i lofa yn y Gilfach Goch am ysbaid. Llwyddodd i fyned i athrofa Llangollen yn 1884 - y cyntaf i ennill ysgoloriaeth Dr. Prichard a'r cyntaf i gael pedair blynedd yno. Ordeiniwyd ef gyda'r Cymry ym Manceinion yn 1878. Mynychai rai dosbarthiadau yng Ngholeg Lancashire ac Owen's College, gan gipio'r ail le mewn Hebraeg. O Awst 1889 hyd ei ymddeoliad, oblegid anhwyldeb, yn 1929, bugeiliai eglwys Felinfoel, Llanelli. Bu farw 19 Medi 1934. Traddododd anerchiad o gadair yr Undeb (1926), ' Y Bedyddwyr: Eu Hegwyddorion Gwahaniaethol a 'u Rhagolygon.' Bu'n golygu *Seren yr Ysgol Sul* am flynyddoedd. Cafodd gynnig golygu *Seren Gomer*, ond nis derbyniodd. Diwinydd, esboniwr, a hanesydd oedd, fel y praw ei esboniadau ar epistolau Paul at y Philippiaid a'r Colossiaid, *Hanes Bedyddwyr Felinfoel*, 1909, a'r pamffledyn, *John Myles*, 1913.

Awdur

Y Parchedig William Joseph Rhys, (1880 - 1967)

Ffynonellau

Seren yr Ysgol Sul yn cynwys bywgraffiaeth, hanesiaeth naturiol, barddoniaeth, cerddoriaeth, &c.;, Awst 1926

Seren Gomer, Tachwedd 1935, Mai 1936

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732651

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu